## CYNGOR CAERDYDD

COFNODION

## CYFARFOD Y CABINET: 17 MAI 2018

| | |
|---|---|
| Aelodau Cabinet yn Bresennol: | Y Cynghorydd Huw Thomas (Arweinydd)<br>Y Cynghorydd Peter Bradbury<br>Y Cynghorydd Susan Elsmore<br>Y Cynghorydd Russell Goodway (107-111)<br>Y Cynghorydd Graham Hinchey<br>Y Cynghorydd Sarah Merry<br>Y Cynghorydd Michael Michael<br>Y Cynghorydd Lynda Thorne<br>Y Cynghorydd Christopher Weaver<br>Y Cynghorydd Caro Wild |
| Gwylwyr: | Y Cynghorydd Joe Boyle<br>Y Cynghorydd Keith Parry<br>Y Cynghorydd Adrian Robson<br>Y Cynghorydd Nigel Howells (106-107) |
| Swyddogion: | Paul Orders, y Prif Weithredwr<br>Christine Salter, Swyddog Adran 151<br>David Marr, ar ran y Swyddog Monitro<br>Joanne Watkins, Swyddfa'r Cabinet |
| Ymddiheuriadau: | |

### COFNODION Y CYFARFOD CABINET A GYNHALIWYD AR 19 EBRILL 2018

PENDERFYNWYD: bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ebrill 2018yn cael eu cymeradwyo.

### ADRODDIAD Y PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL O'R ENW 'ARIANNU PARCIAU'

Cyflwynodd y Cynghorydd Nigel Howells, Cadeirydd Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant, adroddiad o'r enw 'Ariannu Parciau' a oedd yn cynnwys 13 o argymhellion i'r Cabinet eu hystyried.

**PENDERFYNWYD:** bod Adroddiad Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant 'Ariannu Parciau' yn cael ei dderbyn ac ymateb yn cael ei ddarparu erbyn mis Medi 2018.

## CYNLLUN CORFFORAETHOL 2018-2021

Derbyniodd y Cabinet y Cynllun Corfforaethol 2018-2021 i'w ail ystyried yn dilyn penderfyniad y Cyngor i beidio â'i gymeradwyo yn eu cyfarfod ym mis Ebrill. Nodwyd bod y cynllun yn cynnwys sawl cyfeiriad at fynd i'r afael ag anghyfartaledd yn ei holl weddau, gan gynnwys anghyfartaledd iechyd. Yn dilyn dadl yn y Cyngor, mae ymrwymiad y Weinyddiaeth i fynd i'r afael ag anghyfartaledd iechyd yng Nghaerdydd wedi ei wneud yn gliriach a'i gryfhau a cham ychwanegol wedi ei gynnwys i ystyried arweiniad a ddaw i'r amlwg ar gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd statudol er mwyn bwydo datblygiad Cynlluniau Corfforaethol yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:**

1. cymeradwyo Cynllun Corfforaethol 2018-21 i'w ystyried gan y Cyngor ar 24 Mai 2018; ac

2. Argymell i'r Cyngor ddirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, i wneud unrhyw newidiadau canlyniadol i Gynllun Corfforaethol 2018-21 yn dilyn ystyriaeth gan y Cyngor ar 24 Mai 2018.

## STRATEGAETH RHEOLI GWASTRAFF AC AILGYLCHU DRAFFT A GOFYNION Y CYNLLUN CYFLENWI 2018 TAN 2021

Derbyniodd y Cabinet adroddiad yn cynnwys y Strategaeth Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu drafft er mwyn ymgynghori arno. Amlinellodd yr adroddiad hefyd gynigion i ehangu'r ddarpariaeth ymhellach yn y ddinas ar gyfer biniau ag olwynion, darparu gorsafoedd addysg canolfan ailgylchu gwastraff y cartref a chynllun peilot i gasglu gwastraff gwydr domestig i'w ailgylchu, ar wahân i gasgliadau gwastraff y cartref eraill. Adroddwyd y byddai ymgynghori ag Aelodau Lleol yn mynd rhagddo ar bob ffrwd ar yr adeg priodol.

**PENDERFYNWYD:**

1. Fel yr amlinellwyd yn y Strategaeth Rheoli Gwastraff Ailgylchu 2015-18,

    a. cymeradwyo'r cynnig i ymestyn ymhellach y ddarpariaeth biniau olwynion fel y nodir yn Atodiad A2 i'r adroddiad

    b. cymeradwyo'r cynnig i greu gorsafoedd addysg Canolfan Ailgylchu Gwastraff Y Cartref (CAGC); a

    c. cymeradwyo cynllun peilot i gasglu gwastraff gwydr domestig ar gyfer ailgylchu, ar wahan i gasgliadau gwastraff y cartref eraill

2. Cymeradwyo ymgymryd ag ymgynghoriad ledled y ddinas ar y Strategaeth Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu 2018-21, gan gynnwys cynigion newid allweddol

yn y strategaeth ddrafft, gofynion seilwaith newydd, safonau gwasanaeth a chynigion eraill a godwyd yn yr adroddiad hwn

3. cymeradwyo cynnal adolygiad ailgylchu gwastraff annibynnol, a fydd yn help i sicrhau y bydd pob agwedd ar y Strategaeth Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu 2018-21 yn flaengar a chadarn

4. cytuno i archwilio cydweithredu rhanbarthol, ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, ar ddatblygu gwerthusiad achos busnes amlinellol cychwynnol a dewisiadau ar gyfer y cynnig i ddatblygu cyfleuster ailgylchu rhanbarthol.

5. Adroddiad pellach i gael ei baratoi yn dilyn ymgynghori ac erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2018/19, a fydd yn ystyried mabwysiadu graddol ehangach ar gasgliadau gwastraff gwydr a fersiwn derfynol o Strategaeth Rheoli Gwastraff 2018-21 i gael ei chymeradwyo

**ADEILADU CYMUNEDAU GWYDN DRWY DDATBLYGU HYBIAU CYMUNEDOL YMHELLACH**

Ystyriodd y Cabinet adroddiad yn amlinellu cynigion ar gyfer datblygu hybiau ymhellach er mwyn helpu i adeiladu cymunedau gwydn. Cynigiwyd datblygu hybiau llesiant cymunedol yng ngogledd a gorllewin y ddinas a fyddai'n cynnig ystod eang o wasanaethau byw yn annibynnol, yn cynnwys sefydliadau partner a grwpiau cymunedol lleol a gwirfoddolwyr. Byddai adolygiadau o bob ardal yn cael eu cwblhau i nodi anghenion lleol er mwyn sicrhau y gellid teilwra gwasanaethau i'r ardal. Ar ben hynny cynigiwyd fod gwasanaeth cynhwysiant cymunedol yn cael ei datblygu ar draws yr hybiau i roi cefnogaeth i grwpiau lleol.

Cynigiodd yr adroddiad hefyd newidiadau i Hyb y Llyfrgell Ganolog i alluogi mwy o gydweithio o fewn y llyfrgell.

**PENDERFYNWYD:**

1. bod y dull o ddatblygu Hybiau Llesiant Cymunedol yng ngogledd a gorllewin y ddinas yn cael ei fabwysiadu ac awdurdod yn cael ei ddirprwyo i Gyfarwyddwr Pobl a Chymunedau i fynd â hyn yn ei flaen mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau.
2. Bydd unrhyw gynigion sy'n cynnwys newid sylweddol i adeiladau presennol yn amodol ar adroddiad cabinet ar wahân.
3. cytuno ar y cynigion ar gyfer ymagwedd newydd at ymgysylltu cymunedol trwy gyflwyno Swyddogion Cynhwysiant Cymunedol wedi eu hangori yn yr Hyb.

4. cytuno i raglen grant ar gyfer Clybiau Iechyd a Llesiant a Gwaith Cartref fel y nodir yn yr adroddiad

5. cytuno i gynigion i wella gwasanaethau a gwella cydweithio yn Hyb y Llyfrgell Ganolog

6. cymeradwyo datblygu gwasanaethau llyfrgelloedd ymhellach, gan i adeiladu ar arfer gorau ac i gyflwyno gwasanaethau llyfrgell a digwyddiadau o safon ledled y ddinas.

**GWAREDU TIR YN WEDAL ROAD**

**Ni chyhoeddir Atodiadau 2 a 3 yr adroddiad hwn gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth o'r math a ddisgrifir ym Mharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.**

Derbyniodd y Cabinet adroddiad yn amlinellu manylion penderfyniad y Pwyllgor Adolygu Polisi a Pherfformiad i gyfeirio y penderfyniad a alwyd yn ôl gan y Swyddog yn ymwneud â gwaredu tir ar Heol Wedal i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Adroddwyd bod gwerth y tir wedi bod yn destun prisio marchnad annibynnol yn unol â rheolau gwaredu eiddo'r Cyngor a bod gwerthiant wedi ei gytuno gyda Bwrdd Iechyd y Brifysgol yn unol â'r polisi gwaredu eiddo o gynnig tir/adeiladau segur i bartneriaid sector cyhoeddus. Roedd y penderfyniad hwn yn unol â Phrotocol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaredu a rhannu defnydd ar asedau eiddo rhwng cyrff yng Nghymru a ariennir yn gyhoeddus.

**PENDERFYNWYD:**

1. cymeradwyo cynnwys yr adroddiad fel sylfaen ymateb y Cabinet i benderfyniad y Pwyllgor Craffu PRAP i gyfeirio'n ôl Benderfyniad y Swyddog at y Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd.
2.
3. Awdurdodi gwaredu tir y Cyngor yn Heol Wedal sydd wedi'i ddangos gyda llinell goch ar y cynllun safle yn Atodiad 1 yr adroddiad trwy drafodiad oddi ar y farchnad i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar y telerau cyfrinachol a nodwyd yn Atodiad 3 ac ar sail gwerth y farchnad wedi'i bennu gan adroddiad y gwerthwr annibynnol sydd wedi'i atodi at Atodiad 2 sy'n gyfrinachol

**YMESTYN CONTRACTAU MEWN PERTHYNAS Â'R GWASANAETH BYW Â CHYMORTH I OEDOLION AG ANABLEDD DYSGU**

***Mae Atodiad 2 wedi'i eithrio rhag ei gyhoeddi yn unol â pharagraff 16 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972***

Ystyriodd y Cabinet gynigion i ehangu trefniadau contractaidd Gofal Personol yn y Cartref a Chymorth Cartref ar gyfer cynnig Gwasanaethau Byw â Chymorth i Oedolion ag Anabledd Dysgu.

**PENDERYNWYD:** cymeradwyo'r amrywiad i gontractau cyfredol ar gyfer darparu Gwasanaethau Byw â Chymorth i oedolion sydd ag anabledd dysgu trwy (i) ymestyn y contract 8 mis o 1 Awst 2018 a (ii) yn amodol ar gyllid yn cael ei gadarnhau, ymestyniad o 7 mis pellach hyd at 31 Hydref 2019.